Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau
Ymarferydd yr Uned Troseddau Tân
Rhif y Swydd: 502250
Gradd 9 – (£33,366 - £35,235)

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr adran Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau a leolir ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant, CF72 8LX.

Fel Ymarferydd Uned Troseddau Tân bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ysgogiad i weithio'n rhagweithiol ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol ill dau i helpu lleihau nifer yr achosion o Losgi Bwriadol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig a thrais (trwy fygythiadau llosgi bwriadol) o fewn ardal GTADC.

Achos natur y rôl, rhaid i ymgeiswyr allu teithio'n annibynnol rhwng safleoedd ledled De Cymru, darperir cludiant i'ch galluogi i gyflawni eich dyletswyddau swyddogol.

Mae'r meini prawf hanfodol i'w hystyried ar gyfer y rôl yn cynnwys gallu cryf i ddatrys problemau, profiad o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn y gymuned, gallu gweithio gydag asiantaethau partner yn ogystal â'r gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â pholisïau sefydliadol.

Bydd Gwiriad manylach gan Y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd a Gwiriad gan yr Heddlu yn cael eu cynnal cyn penodi.

Gellir canfod mwy o fanylion am y swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â'r Ffurflen Gais o dudalen Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Rheolwr Gorsaf UTT, James Davies drwy law e-bost ar jj-davies@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn Ffurflenni Cais yw 07/02/2025. Bydd y Rhestr fer a'r Cyfweliadau yn dilyn yn fuan wedyn ac i'w cadarnhau.

Ymgeiswyr Allanol

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag-diweddaraf. Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Cyfredol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio. Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

Ymgeiswyr Mewnol

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gwag cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r

wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

Pob Ymgeisydd
Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn wneud pob ymdrech i'ch helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.